



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

ADRODDIAD

# Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021: Crynodeb naratif

Lluniwyd yr adroddiad i gefnogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer y tymor hir.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Rhagfyr 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Rhagfyr 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

Rhagair y Gweinidog

Cyflwyniad

Deall Dyfodol Cymru

Canllaw ar adroddiad

Pobl a phoblogaeth

Anghydraddoldebau

Iechyd a therfynau'r blaned

Technoleg

Cyllid cyhoeddus

Galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus

Cyfeiriadau ac adnoddau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Rhagair y Gweinidog

Mae gwledydd ledled y byd yn wynebu heriau cymhleth sy'n berthnasol i bob cenhedlaeth: hinsawdd sy'n newid, cynnydd mewn anghydraddoldeb, colli bioamrywiaeth, digidoleiddio cynyddol mewn cymdeithas, ac effeithiau parhaus pandemig COVID-19. Mae pob un o'r rhain yn bygwth gadael pobl a lleoedd ar ôl, a gadael planed nad yw'n iach i genedlaethau'r dyfodol. Yma yng Nghymru, mae ein dull gweithredu ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach i ymdopi â'r newidiadau hyn, ac achub ar y cyfleoedd niferus i wella ansawdd bywyd pobl ledled Cymru mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n ddull sy'n treiddio i'n gwasanaethau cyhoeddus ac sy'n cael ei gydnabod gan fusnesau, y trydydd sector, cymunedau a dinasyddion fel y brif ffordd o symud ymlaen.

Un rhan allweddol o'r dull hwn yw'r ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â'r dyfodol mewn cyfnod o ansicrwydd sylweddol. Mae pandemig COVID-19 yn parhau i bynnig her i bolisiâu a phrosesau gwneud penderfyniadau cyhoeddus, a byddant yn cael eu herio eto wrth i newidiadau a fydd efallai'n dechrau ar ochr arall y byd yn dechrau cael effaith ar bob cwr o Gymru. Mae ein gallu i lunio dyfodol Cymru yn dibynnu ar ein gallu i lunio ein hymateb i'r tueddiadau mawr hyn.

Felly, mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn ddull sefydliadol pwysig yng Nghymru, a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i helpu llunwyr polisiâu i ddeall dyfodol Cymru ac ymateb yn briodol. Mae'r adroddiad yn gysylltiedig â'r ffordd hirdymor o weithio, sef un o'r pum ffordd o weithio sy'n ffurfio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac mae'n ategu tystiolaeth, dadansoddiadau ac adnoddau o amrywiaeth o feysydd polisi er mwyn gwella ein gallu i ddeall yr hyn a all ddigwydd yn y dyfodol.

Diben yr adroddiad hwn yw dwyn amrywiaeth o wybodaeth ynghyd mewn un lle hygyrch, er mwyn helpu dinasyddion a llunwyr polisiâu yng Nghymru i ddeall y tueddiadau a'r ysgogwyr mawr sy'n debygol o lunio dyfodol Cymru. Mae ganddo

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

rôl benodol o dan y ddeddfwriaeth i lywio gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt asesu llesiant lleol. Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio cefnogi ein deialog genedlaethol ar y ffyrdd gorau o baratoi ar gyfer y dyfodol. Dylid trin yr adroddiad fel dogfen adnoddau y gall pobl droi ati i gael gwybodaeth am dueddiadau allweddol sy'n eu hannog i ystyried yr heriau a'r cyfleoedd a all ddeillio o'r tueddiadau hyn.

Mae'r adroddiad yn cynnwys pedwar megaduedd sydd fwyaf tebygol o arwain at risgiau neu gyfleoedd i Gymru, sef pobl a phoblogaeth, iechyd a therfynau'r blaned, anghydraddoldebau, a thechnoleg. Gan gydnabod y rôl unigryw y mae cyrff cyhoeddus yn ei chwarae i gyflawni'r nodau llesiant, mae'r adroddiad hwn yn cynnig gwybodaeth ychwanegol am y tueddiadau sy'n ymwneud â chyllid cyhoeddus a galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus.

Nid yw'n cynnig atebion i rai o'r heriau hyn ond, drwy eu cyflwyno mewn adnodd integredig, gall ein helpu i ddeall ac archwilio'r cysylltiadau rhyngddynt. Bydd meddwl am yr hirdymor, ynghyd â'r ffyrdd eraill o weithio, sef atal, cydweithio, cynnwys, ac integreiddio, pan gânt eu rhoi ar waith, yn helpu llunwyr polisïau i ymdrin â'r cyfaddawdu sy'n rhan anochel o brosesau gwneud penderfyniadau.

Ers yr adroddiad diwethaf yn 2017, rydym wedi gweld digwyddiadau arwyddocaol megis y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a phandemig COVID-19 sydd wedi tarfu'n sylweddol ar Gymru. Mae'r pandemig wedi dwysáu anghydraddoldebau ac rydym wedi gweld ei effaith anghymesur ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Credaf yn gryf yn yr angen i baratoi ein dinasyddion a'n cymunedau ar gyfer y tueddiadau sy'n llywio'r ffordd y byddwn yn byw ein bywydau, ac ansawdd a chadernid yr amgylchedd rydym yn dibynnu arno. Er bod yr adroddiad hwn yn cydnabod bod y pandemig yn ffactor allweddol sy'n achosi tarfu, mae ei effaith ar dueddiadau yn y dyfodol hirdymor a thymor canolig yn ansicr o hyd. Yn 2022, byddwn yn troi ein sylw at effaith hirdymor bosibl y pandemig ar lesiant Cymru a byddwn yn rhoi diweddariad yn 2023. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu adnoddau ychwanegol a chyfleoedd i roi'r ffordd hirdymor o feddwl ar waith yn ymarferol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Hawdd fyddai meddwl bod y dyfodol, rhagolygon a meddwl ar gyfer y tymor hir yn ymddangos yn bell i ffwrdd oddi wrth yr anghenion a'r cryfderau sydd gan bobl a chymunedau ar hyn o bryd. Ond gwyddom fod cymunedau yn rhan o'r broses o lunio eu cymunedau. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru brosiect **Dyfodol Gwell Cymru: Prosiect Rhagolwg Cymunedol** sy'n dangos sut y gall dulliau'r dyfodol annog cymunedau i ddychmygu eu dyfodol eu hunain a chreu newid. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhan hanfodol o'r ecosystem hon. Fe'i sefydlwyd â dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac, yn enwedig, annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wnânt. Rwy'n ddiolchgar i aelodau Grŵp Llywio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a Fforwm Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol am eu cyfraniad at yr adroddiad hwn.

Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021 yn cynnig man cychwyn diwygiedig a chadarn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau archwilio goblygiadau'r tueddiadau hyn, fel y gallwn ddeall dyfodol Cymru yn well, wedi ein sbarduno gan undod â chenedlaethau'r dyfodol.

## Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

# Cyflwyniad

## Edrych i'r dyfodol

Mae **saith nod llesiant Cymru** yn disgrifio dyfodol cynaliadwy i Gymru ar gyfer pobl, y blaned, y presennol a'r dyfodol. Er mwyn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r nodau hyn, bydd angen i bob sector weithredu, gan gynnwys y llywodraeth, cyrff cyhoeddus, busnesau, y trydydd sector, ac unigolion.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ni fydd y llwybr tuag at gyflawni'r nodau hyn yn syml ac mae'n debygol y bydd ysgogwyr a thueddiadau, gan gynnwys rhai y tu hwnt i reolaeth y llywodraeth, a all gyflymu neu arafu cynnydd. Er mwyn bod mewn sefyllfa well i ddeall y rhwystrau neu'r cyfleoedd posibl hyn, mae ein fframwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn cynnig ffordd o ddod â'r tueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol tebygol ynghyd mewn un lle, sef Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru.

Cyhoeddwyd yr **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** cyntaf yn 2017 ac roedd yn edrych ar dystiolaeth o dueddiadau ar gyfer amrywiaeth o themâu polisi gwahanol. Mae adroddiad 2021 yn rhoi sylw i'r ysgogwyr newid sylweddol hynny lle mae'r tueddiadau'n effeithio ar bob sector, a lle y gallent arwain at effeithiau ehangach ar yr economi, cymdeithas, yr amgylchedd a diwylliant. Mae'n canolbwyntio ar yr heriau sy'n pontio'r cenedlaethau y bydd angen i Gymru ymateb iddynt, a'r meysydd y gall eu llywio er mwyn sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy.

Er bod meddwl am y dyfodol yn rhan allweddol o'r gwaith o lunio polisïau a strategaethau, nid yw'r adroddiad yn trafod goblygiadau posibl tueddiadau nac yn gwneud awgrymiadau ar gyfer ymatebion polisi. Nid datganiad o bolisïau'r llywodraeth ydyw. Adnodd i hwyluso trafodaethau ar sail gwell gwybodaeth ymhlith y llywodraeth, cyrff cyhoeddus, y trydydd sector, busnesau, a chymunedau ydyw. Mae'r adroddiad wedi'i lunio'n benodol i gael ei ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynghorau tref a chymuned, y mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn eu galluogi i feddwl am yr hirdymor. Dim ond un o'r ffyrdd y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ecosystem y dyfodol yng Nghymru yw dod â'r tueddiadau ynghyd mewn un adroddiad. Bydd adroddiad 2021 yn rhan o adnodd tueddiadau'r dyfodol a fydd yn datblygu ac yn gwella'n barhaus. Bydd y rhaglen waith dros y pum mlynedd nesaf yn cynnwys diweddariad ar yr adroddiad yn 2023 er mwyn ystyried effeithiau tymor hwy pandemig COVID-19, a datblygu methodoleg ar gyfer profi sensitifrwydd y nodau llesiant i'r ysgogwyr a'r tueddiadau allweddol sy'n effeithio ar Gymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadau-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021 yn cynnwys yr adnoddau canlynol:

- Crynodeb naratif (y ddogfen hon), sy'n rhoi trosolwg ysgrifenedig o'r ysgogwyr a'r tueddiadau allweddol sy'n effeithio ar Gymru.
- Pecyn tystiolaeth, sy'n rhoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr ysgogwyr a'r tueddiadau allweddol sy'n effeithio ar Gymru drwy gyfres o 115 o sleidiau.
- Ffeithlun, sy'n rhoi trosolwg cryno o'r adroddiad.

## Pam rydym yn llunio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol?

Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021 yn rhan allweddol o **fframwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol** yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig yn bennaf ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n rhoi fframwaith datblygu cynaliadwy cynhwysfawr ar waith i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae saith nod llesiant cysylltiedig i Gymru:

### Cymru lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

### Cymru gydnherth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ecosystemau gweithredol iach sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

## **Cymru iachach**

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

## **Cymru sy'n fwy cyfartal**

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

## **Cymru o gymunedau mwy cydlynus**

Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.

## **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

## **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).





Diben y saith nod llesiant yw sicrhau y bydd gan genedlaethau'r dyfodol yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ni nawr, o leiaf. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae dilyn yr egwyddor yn golygu gweithredu mewn modd sy'n sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae a wnelo hyn â chyfiawnder rhwng y cenedlaethau ac o fewn y cenedlaethau. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud eu penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Ceir pum ffordd o weithio a fydd yn galluogi sefydliadau i weithio fel hyn. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn ein helpu i gydweithio'n well â'n gilydd, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor rydym yn eu hwynebu, sef:

- Ystyried yr hirdymor
- Helpu i atal problemau rhag codi neu waethygu
- Gweithredu mewn ffordd integredig
- Cydweithio
- Ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.

O fewn fframwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol, mae gennym ddulliau statudol o helpu i ddeall Cymru nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y dangosyddion llesiant cenedlaethol a'r cerrig milltir cenedlaethol, yn ogystal â dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad hwn bob pum mlynedd, o fewn 12 mis i etholiad y Senedd. Rhaid i'r adroddiad ragweld tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac unrhyw wybodaeth a data dadansoddol eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

Wrth baratoi'r adroddiad, rhaid ystyried camau a gymerwyd gan y Cenhedloedd Unedig mewn perthynas â **Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig**, ac **Aseiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU** a gyhoeddwyd o dan **Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'n ofynnol i **Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yng Nghymru gyfeirio at adroddiad tueddiadau'r dyfodol yn eu hasesiadau o lesiant lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn un o nifer o ffynonellau tystiolaeth ac adnoddau a all helpu sefydliadau i hwyluso sgysiau a gwaith dadansoddi sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Caiff rhestr o ffynonellau ac adnoddau ei chyhoeddi a'i diweddarau'n rheolaidd ar ein tudalennau **Tueddiadau'r Dyfodol Cymru**.

## Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Yn 2015, cytunwyd ar **Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy**, sef y cynllun gweithredu trawsnewidiol sy'n seiliedig ar 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, i fynd i'r afael â heriau byd-eang brys erbyn 2030. Y camau y bydd y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn eu cymryd i gyflawni'r saith nod llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a fydd yn helpu Cymru i gyfrannu at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym wedi ystyried **Adroddiad Nodau Datblygu Cynaliadwy 2021** ac adroddiad Rhwydwaith Economegwyr y Cenhedloedd Unedig, **Shaping the Trends of Our Time** (2020) a oedd yn dadansoddi tueddiadau byd-eang sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Bydd sicrhau bod yr adroddiad hwn yn cyd-fynd yn agos â'n gwaith i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, a chymryd camau i gyflawni saith nod llesiant Cymru, yn sicrhau bod Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

## Deall Dyfodol Cymru

### Fframwaith Llesiant cenedlaethau'r dyfodol


Mae fframwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn cynnig ffordd o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddeall dyfodol Cymru mewn modd strwythuredig a systematig. Cyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yw un o brif nodweddion y fframwaith hwn, ond gwneir hyn ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfleoedd allweddol i wreiddio ffordd hirdymor o feddwl mewn prosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae Ffigur 2 yn amlinellu rôl yr adroddiad yn y fframwaith ehangach.



Ffigur 2. Pyramid Deall Dyfodol Cymru

## Signalau

Mae signalau yn dweud wrthym beth sy'n digwydd nawr. Drwy ein 50 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol, rydym wedi rhoi ar waith ffordd o olrhain newidiadau byrdymor yng nghynaliadwyedd Cymru. Mae'r dangosyddion hyn yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadau-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cwmpasu'r ystod lawn o agweddau sy'n ymwneud ag economi, cymdeithas, amgylchedd a diwylliant Cymru. Maent yn rhoi diweddariad blynyddol ar amrywiaeth o fetrigau, a gwybodaeth gyd-destunol sy'n dangos pa newid sy'n digwydd, a pha mor gyflym, wrth inni symud tuag at gyflawni saith nod llesiant Cymru. Gwnaethom ddiweddarau ein cyfres o ddangosyddion llesiant cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2021 er mwyn cau bylchau ac adlewyrchu profiad pobl o'r pandemig yn well. Rydym yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd drwy adroddiad **Llesiant Cymru**, a gyhoeddir gan Brif Ystadegydd Cymru.

## Ein Dangosyddion Llesiant cenedlaethol

Mae ein Dangosyddion Llesiant cenedlaethol yn mesur gweithgarwch yng Nghymru, ond gall fod signalau y tu allan i'r fframwaith hwn sy'n dangos achosion o darfu, risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol a all arafu neu gyflymu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

## Ysgogwyr

Ysgogwyr yw'r tueddiadau mwyaf aeddfed sy'n sbarduno newid mewn amrywiaeth eang o nodau llesiant ac yn dylanwadu ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Maent yn cael mwy o ddylanwad ym meysydd llesiant yr economi, cymdeithas, yr amgylchedd a diwylliant. Maent yn aml yn fyd-eang eu natur ac yn croestorri ei gilydd i gyflymu newid – gan gynnwys y rhai a all waethygu problemau sydd eisoes yn bodoli, megis anghydraddoldeb.

## Tueddiadau

Tueddiadau yw patrymau sylfaenol o newid lle mae cyfeiriad y newid yn gymharol glir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Risgiau

Risgiau yw canlyniadau posibl ysgogwyr a thueddiadau o ran cyflawni'r nodau llesiant. Yn yr un modd, mae'n bosibl bod ysgogwyr a thueddiadau sy'n cynnig cyfleoedd i gyflymu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau. Mae llawer o'r risgiau a'r cyfleoedd hyn yn gysylltiedig â'i gilydd.

Gall meddwl am yr hirdymor helpu i ddatblygu senarios ar gyfer dyfodol amgen. Gall yr adroddiad gynnog llwyfan ac adnoddau i dimau polisi a chymunedau ddatblygu enghreifftiau o ddyfodol posibl, credadwy, tebygol a dymunol.

## Cymhwyso enghreifftiau

Mae cymhwyso enghreifftiau o ddyfodol yn golygu rhoi'r dystiolaeth a'r adnoddau hyn mewn perthynas â'r dyfodol ar waith mewn lleoliadau gwahanol, boed hynny drwy edrych ar ddyfodol polisi neu le penodol, neu'r ffordd y bydd tueddiadau penodol yn effeithio ar grwpiau o'r boblogaeth mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig.

## Arferion sy'n canolbwyntio ar y dyfodol yng Nghymru

Er nad pan basiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y dechreuodd yr arfer o feddwl am y dyfodol, mae'r dyletswyddau a'r pwyslais yn y ddeddfwriaeth wedi arwain at fwy o weithgarwch a diddordeb yn y gwaith ar ragolygon a'r dyfodol mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru.

- Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'i swyddfa wedi chwarae rhan arwyddocaol yn y gwaith o gefnogi a hwyluso gwell ystyriaeth i'r hirdymor yng Nghymru. Mae [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#) yn nodi rhai o'r tueddiadau sy'n effeithio ar Gymru, ac mae hyfforddiant a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

chymorth wedi'i gynnig a'i ddarparu i hwyluso'r broses o roi **Pecyn Cymorth Tri Gorwel** ar waith.

- Cydnabu **archwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru** y bydd cyrff cyhoeddus yn wynebu risg o leihau llesiant a chynyddu costau dros yr hirdymor oni fyddant yn edrych i'r dyfodol. Canfu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol lawer o enghreifftiau lle roedd cyrff cyhoeddus wedi meddwl am yr hyn roeddent am ei gyflawni dros yr hirdymor, ond tynnodd sylw at yr angen i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyflawn o anghenion cyfredol a thueddiadau yn y dyfodol.
- **Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Caerdydd** wedi archwilio arferion sy'n dod i'r amlwg, nodi'r heriau sy'n dod i'r amlwg, ac amlinellu ffyrdd o gryfhau llais cenedlaethau'r dyfodol mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru.
- Edrychodd **adroddiad gan yr Ysgol Dyfodol Rhyngwladol** ar nodweddion rhagolygon systemig effeithiol mewn llywodraethau'n fyd-eang. Roedd y nodweddion cyffredinol a nodwyd yn ymwneud â diwylliant ac ymddygiad, strwythurau, pobl a phrosesau. Yn yr asesiad, cydnabuwyd dull gweithredu arloesol Cymru.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cymuned ragolygon fewnol er mwyn dwyn swyddogion o dimau polisi ynghyd i rannu arferion wrth gymhwyso gwaith ar y dyfodol.
- Mae **Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040** yn nodi nifer o heriau a chyfleodd hyd at 2040 sydd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith datblygu cenedlaethol.
- Datblygodd lechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol **Becyn Cymorth Tri Gorwel** er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i osgoi gwneud penderfyniadau na fyddant yn sefyll prawf amser. Mae'n seiliedig ar fodel a ddatblygwyd gan Bill Sharpe a'r **Fforwm Dyfodol Rhyngwladol**.
- Mae **Prosiect Dyfodol Gwell Cymru** Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn annog cyfranogwyr mewn tair cymuned yng Nghymru i freuddwydio am sut beth yw dyfodol gwell iddyn nhw, a datblygu cynllun gweithredu i'w roi ar waith.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Cyhoeddodd Swyddfa Llywodraeth y DU dros Wyddoniaeth **ganllaw cryno**, ar feddwl am y dyfodol a rhagolygon, a chyhoeddodd **Becyn Tueddiadau** sy'n cynnig sylfaen dystiolaeth o dueddiadau hirdymor ar gyfer llunwyr polisïau'r DU.
- Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig '**Our Common Agenda**' a oedd, am y tro cyntaf, yn ymrwymo'r Cenhedloedd Unedig i roi amrywiaeth o ddulliau sefydliadol ar waith i wella undod â chenedlaethau'r dyfodol. Roedd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynrychioli cenedlaethau'r dyfodol fel rhan o ddull unrhyw wlad o ymdrin â'i chyfrifoldeb i'r blaned a gwella bywydau dinasyddion. Mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer datganiad ar genedlaethau'r dyfodol, cennad arbennig i'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a dulliau rheolaidd o ystyried tueddiadau'r dyfodol. Mae'r newidiadau hyn yn gefnogaeth gref i'r ffordd y mae Cymru'n mynd ati i wreiddio'r dyfodol yn y ffordd y mae Cymru'n gweithio.
- Mae'r **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol** yn cynnwys asesiad o'r ffordd y mae Cymru'n rheoli ei hadnoddau naturiol, gan gynnwys effaith Cymru yn fyd-eang. Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 yn adeiladu ar nifer o asesiadau o statws a thueddiadau ym maes adnoddau naturiol ar lefel Cymru, y DU a rhyngwladol. Mae'n ystyried y risgiau a achosir gan y tueddiadau hynny i'n hecosystemau ac i lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hirdymor Cymru, mewn termau a ddiffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Canllaw ar Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021

### Dewis tueddiadau

Nodwyd y tueddiadau yn yr adroddiad hwn yn dilyn adolygiad llenyddiaeth o'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



tueddiadau allweddol sy'n llywio'r agenda datblygu cynaliadwy fyd-eang. Cafodd amrywiaeth eang o ddadansoddiadau a ffynonellau tystiolaeth ar lefel ryngwladol ac ar lefel Cymru/y DU eu cynnwys yn yr adolygiad hwn, ac mae rhestr lawn i'w gweld yn adran 'Cyfeiriadau ac Adnoddau' Pecyn Tystiolaeth yr adroddiad. Cafodd y tueddiadau hyn eu harfarnu gan adrannau Llywodraeth Cymru a Grŵp Llywio Technegol Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol er mwyn darganfod pa dueddiadau sydd fwyaf arwyddocaol i nodau llesiant Cymru ac y dylid eu cynnwys yn adroddiad 2021.

## Strwythur

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o bedwar ysgogwr newid mawr:

- Pobl a phoblogaeth
- Anghydraddoldebau
- Iechyd a therfynau'r blaned
- Technoleg

Mae'r tueddiadau hyn yn debygol o effeithio ar allu Cymru i gyflawni'r saith nod llesiant am fod iddynt oblygiadau posibl ym mhob rhan o gymdeithas, economi, amgylchedd a diwylliant Cymru. Gan gydnabod y cyd-destun y mae cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynghorau tref a chymuned, yn gweithio ynddynt, bydd yr adroddiad hwn hefyd yn rhoi trosolwg o ddau ysgogwr gwasanaethau cyhoeddus:

- Cyllid cyhoeddus
- Galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r ysgogwyr a'r tueddiadau allweddol o dan y penawdau hyn sy'n gysylltiedig â'r pecyn tystiolaeth. Ar ddechrau pob adran, cyflwynir dadansoddiad dangosol o'r cysylltiad rhwng yr ysgogwyr a nodau llesiant Cymru. Byddwn yn datblygu'r dadansoddiad hwn ymhellach drwy fodel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

sensitifrwydd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o effaith yr ysgogwyr hyn ar bob un o'r saith nod llesiant, a'r cyfleoedd a gyflwynir ganddynt.

## Effaith barhaus pandemig COVID-19

Gall effaith sydyn a syfrdanol digwyddiad annisgwyl darfu ar allu Cymru i gyflawni'r nodau llesiant. Mae pandemig COVID-19 yn enghraifft o ffactor sy'n achosi tarfu, gan effeithio ar dueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru. Mae effaith pandemig COVID-19 wedi arwain at drafodaethau a diddordeb o'r newydd mewn rhagolygon o'r dyfodol. Hefyd, mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar economïau a chymdeithasau ledled y byd, gyda rhai achosion amlwg o darfu byrdymor ar dueddiadau. Mae wedi cael effaith sylweddol ar yr economi fyd-eang ac wedi cael effaith anghymesur ar wledydd sy'n datblygu, gan waethygu tlodi a thynnu sylw at anghyfartaleddau byd-eang o ran mynediad at frechlynnau a thrywyddau adfer. Yn unol â'r sefyllfa fyd-eang, mae'r pandemig wedi gwaethygu anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru, yn enwedig i'r bobl fwyaf agored i niwed, ond hefyd yn ehangach mewn cymdeithas. Mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar fenywod, pobl hŷn, pobl ifanc, pobl o grwpiau **Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl**, pobl â chyflyrau iechyd a oedd yn bodoli eisoes, pobl sy'n byw mewn tai islaw'r safon, a phobl sy'n gweithio mewn rolau anffurfiol, rolau incwm isel a rolau mewn gwasanaethau rheng flaen.

Mae'n debygol y bydd y pandemig, sy'n dal i fynd rhagddo, yn cyflymu rhai tueddiadau sydd eisoes yn bodoli ac yn creu tueddiadau newydd o bosibl. Fodd bynnag, mae'r ffordd y bydd effaith y pandemig, sy'n dal i ddatblygu, yn llywio tueddiadau hirdymor a thymor canolig yn fyd-eang ac i Gymru, yn llawer mwy ansicr ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod effaith y pandemig ond, o ystyried yr ansicrwydd, ni fydd yn gwneud unrhyw ragdybiaethau ynghylch sicrwydd yr effeithiau hirdymor. Rydym yn bwriadu diweddarau'r pecyn tystiolaeth ar ddechrau 2023 pan fydd rhagor o wybodaeth a data ar gael.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Pobl a phoblogaeth

## Twf y boblogaeth yn y dyfodol

Er bod disgwyl i'r boblogaeth fyd-eang dyfu 2 biliwn erbyn 2050, disgwylir i'r twf yn y boblogaeth fyd-eang arafu dros amser (Y Cenhedloedd Unedig, [World Population Prospects 2019](#)). Bydd y rhan fwyaf o'r twf yn y boblogaeth fyd-eang y tu allan i Ewrop a Gogledd America, ac yn Affrica y mae'r potensial mwyaf i'r boblogaeth dyfu. Mae'n bosibl mai Affrica fydd y cyfandir mwyaf poblog erbyn 2030, gan gynyddu'n uwch na phoblogaethau Tsieina neu India ([ibid](#)). Bydd poblogaethau'n cynyddu a demograffeg yn newid mewn ffyrdd gwahanol mewn gwledydd a rhanbarthau ledled y byd – gan gynnwys yng Nghymru ([Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018, Cymru \(diwygiedig\)](#), Llywodraeth Cymru). Poblogaeth Cymru ar hyn o bryd yw 3.17 miliwn ac, yn seiliedig ar yr amcanestyniadau presennol, disgwylir iddi gynyddu ([Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#), StatsCymru), ond mae hynny'n dibynnu ar barhad cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau yn ogystal â pharhad mewnfudo net, a all ddigwydd neu beidio.

## Cyfansoddiad y boblogaeth yn y dyfodol

Yn debyg i lawer o wledydd sy'n ddatblygedig yn economaidd, mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio: mae pobl yn byw'n hwy ac yn cael llai o blant. Mae'n debygol y bydd y tueddiadau o ran gostyngiad mewn cyfraddau marwolaethau a ffrwythlondeb yn parhau, gan arwain at gyfran gynyddol o bobl hŷn ym mhoblogaeth Cymru. O gymharu â'r DU gyfan, rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru'n parhau i gynnwys cyfran fwy o bobl hŷn, ac y bydd ei phoblogaeth o oedran gweithio yn lleihau'n raddol dros y degawdau nesaf ([Adroddiad y Prif Economegydd 2020](#), Llywodraeth Cymru).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Disgwyliad oes iach

Er bod yr amcangyfrifon yn amrywio'n sylweddol, cyn pandemig COVID-19, roedd yn debygol y byddai'r cynnydd mewn disgwyliad oes yng Nghymru yn parhau, er bod y cynnydd wedi arafu dros y degawd diwethaf (**Life expectancy estimates, all ages**, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd hwn mewn disgwyliad oes wedi trosi'n 'ddisgwyliad oes iach' (nifer y blynyddoedd y bydd rhywun yn eu treulio mewn iechyd da), sydd wedi lleihau fymryn dros y degawd diwethaf (**Health state life expectancy, all ages**, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Caiff y duedd hon ei sbarduno'n rhannol gan anghydraddoldebau a wynebwr gan y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd â'r mwyaf o amddifadedd yng Nghymru ac sydd fwyaf tebygol o roi gwybod bod ganddynt afiechyd (**Health state life expectancies by national deprivation deciles, Wales: 2017 to 2019**, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Hefyd, mae poblogaethau sy'n heneiddio yn fwy cysylltiedig â lefelau uwch o gyflyrau iechyd cronig ac afiechyd (**Future of an Aging Population**, Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth 2016; **Projections of older people with dementia and costs of dementia care in the UK, 2019-2040**, London School of Economics and Political Science). Fodd bynnag, mae pobl hŷn yn tueddu i roi gofal di-dâl a gwneud cyfraniadau gwerthfawr i gymunedau lleol.

## Cyfansoddiad aelwydydd yn y dyfodol

Mae strwythur aelwydydd yng Nghymru yn newid. Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu'n gyson dros yr 20 mlynedd nesaf (**Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a blwyddyn**, StatsCymru), ond mae hyn yn ddibynnol ar amcanestyniadau ansicr iawn o'r boblogaeth. Mae'r tueddiadau mewn perthynas â chyfansoddiad aelwydydd yn dangos cynnydd mewn aelwydydd un person. Mae maint aelwydydd yn lleihau yng Nghymru, a rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd un person yn cynyddu mwy

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

na 10,000 rhwng 2020 a 2043 ([Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a blwyddyn](#), StatsCymru).

## Mudo

Mae'n debygol y bydd mudo yn parhau i fod yn un o brif achosion newidiadau yn y boblogaeth yng Nghymru. Ers 2019, mae patrymau mudo wedi newid sydd wedi arwain at gynnydd mewn lefelau mudo net. Gan ddefnyddio'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf, tybir bod mudo rhyngwladol i Gymru yn gymharol gyson hyd at 2030, gyda chynnydd net disgwylidig o tua 6,000 y flwyddyn o ganol 2025 ymlaen ([National population projections, migration assumptions: 2018-based](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae lefelau mudo net o'r tu allan i'r UE wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2013, ac yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 gwelwyd rhai o'r lefelau mudo uchaf ar gofnod o wledydd y tu allan i'r UE i'r DU ([Migration statistics quarterly report: Awst 2020](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

## Y Gymraeg

Dros amser, rhagwelir y bydd nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol. Roedd amcanestyniadau yn seiliedig ar ddata cyfrifiad 2011, a gyfrifwyd yn 2017 gan Lywodraeth Cymru, yn amcangyfrif y byddai tua 666,000 o bobl dair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050 ([Adroddiad Technegol: Amcanestyniad a thafliwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050](#), Llywodraeth Cymru). Mae hyn yn cyfateb i 21 y cant o'r boblogaeth ac mae'n gynnydd o 100,000 o siaradwyr Cymraeg dros y cyfnod o 40 mlynedd. Gan ystyried tybiaethau polisi yn unol â tharged Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ([Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg](#), Llywodraeth Cymru), cynhyrchwyd 'tafliwybr' ar wahân sy'n dangos y gallai'r ffigur hwn fod yn uwch erbyn 2030. O dan y tafliwybr hwn, tybir bod y cynnydd cyffredinol yn cael ei yrru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gan grwpiau oedran iau ac yn cael ei gynnal drwy genedlaethau'r dyfodol.

Fodd bynnag, mae data mwy diweddar o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos bod y ffigurau'n rhagor ar hyd yn oed yr amcangyfrifon mwyaf uchelgeisiol yn ar hyn o bryd, gyda 883,300 o siaradwyr Cymraeg 3+ oed yn 2021 (**Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Gorffennaf 2020 i Fehefin 2021**, Llywodraeth Cymru). Er gwaethaf gostyngiad o 896,900 yn 2019, mae'r tueddiad tymor hwy yn awgrymu y bydd y targed o 1,000,000 o siaradwyr Cymraeg yn cael ei gyflawni ymhell cyn 2050, ac y rhagorir arno hyd yn oed o fewn y 10 mlynedd nesaf. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y Cyfrifiad Cenedlaethol a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn defnyddio gwahanol ddulliau samplu ac felly nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol. Bydd darlun mwy cywir o dueddiadau cyfredol y Gymraeg yn amlwg pan gyhoeddir data Cyfrifiad Cenedlaethol 2021.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, gyda'r cyfraddau uchaf ymhlith y rhai 19 oed ac iau. Mae'r gyfran yn gostwng wrth i ymatebwyr fynd yn hŷn, gan gynyddu ychydig ar gyfer y rhai 85 oed a throsodd (**Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (canfyddiadau cychwynnol): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020**, Llywodraeth Cymru). Er bod cyfran y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg ar ei huchaf yn awdurdodau lleol y Gogledd, mae cyfradd twf siaradwyr ar ei huchaf yn awdurdodau lleol y De a'r De-ddwyrain. Mae bron pob siaradwr Cymraeg yng Nghymru yn gallu siarad Saesneg yn rhugl hefyd.

I gael gwybodaeth fanylach am dueddiadau mewn perthynas â phobl a'r boblogaeth, gweler sleidiau 8 i 31 ym Mhecyn Tystiolaeth Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Anghydraddoldebau

## Tlodi

Yn fyd-eang, mae tlodi eithafol (nifer y bobl sy'n byw ar lai nag \$1.90 y dydd) wedi lleihau dros y degawdau diwethaf. Wrth i wledydd tlotach ddod yn gyfoethocach, mae anghydraddoldeb ar raddfa fyd-eang yn lleihau hefyd ([Shaping the trends of our time](#), Y Cenhedloedd Unedig). Yn ôl safonau rhyngwladol, mae anghydraddoldeb incwm yn y DU yn uchel, ar ôl iddo gynyddu'n sydyn yn y 1980au ond aros fwy neu lai yr un fath ers dechrau'r 1990au ([Income inequality in the UK](#), Senedd y DU). Yn seiliedig ar y tueddiadau presennol, mae'n debygol y bydd anghydraddoldeb incwm yn y DU yn parhau i gynyddu'n raddol yn y dyfodol, yn ogystal ag anghydraddoldeb incwm rhwng y cenedlaethau hefyd.

Mae cyfoeth ledled y DU, yn yr un modd â llawer o wledydd sy'n ddatblygedig yn economaidd, wedi'i rannu'n anghyfartal ([Shaping the trends of our time](#), Y Cenhedloedd Unedig). Mae'r aelwydydd cyfoethocaf yn berchen ar gyfran anghymesur a chynyddol o gyfanswm cyfoeth y wlad, ac mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau yn y dyfodol ([ibid.](#)). Yng Nghymru, lle mae llai o gyfoeth a llai o bobl yn ennill cyflogau uchel, mae lefelau anghydraddoldeb incwm a chyfoeth yn is na llawer o rannau eraill o'r DU ([Adroddiad y Prif Economegydd 2020](#), Llywodraeth Cymru).

Er bod rhai gwledydd sy'n datblygu yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r targedau ar gyfer lleihau tlodi amlddimensiynol, bydd sawl un yn methu'r targedau hyn os bydd y tueddiadau a welir yn parhau ([Shaping the trends of our time](#), Y Cenhedloedd Unedig).

Mae tua un rhan o bump o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi (wedi'i mesur ar ôl costau tai - [Adroddiad y Prif Economegydd 2020](#), Llywodraeth Cymru). Fodd bynnag, gan ddefnyddio tlodi incwm cymharol fel mesur, mae lefelau tlodi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ledled Cymru wedi gostwng yn raddol ers canol y 1990au (**Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer y DU, gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr rhwng 1994-95 i 1996-97 a 2017-18 i 2019-20 (cyfartaleddau 3 blynedd o blynnyddoedd ariannol)**, StatsCymru). Mae cyfraddau tlodi ymhlith aelwydydd yng Nghymru sydd ag aelod anabl yn y teulu dros 10 y cant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm, ond mae'r ganran gyffredinol wedi bod yn gostwng yn raddol (**Pobl mewn tlodi incwm cymharol yn ôl a oes anabledd yn y teulu**, StatsCymru). Hefyd, mae pobl o leiafrifoedd ethnig (heb gynnwys lleiafrifoedd Gwyn) yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru, ond mae'r ganran gyffredinol wedi gostwng yn sylweddol ers lefelau 2014-15 (**Pobl mewn tlodi incwm cymharol yn ôl grŵp ethnig y penteulu**, StatsCymru). Er bod aelwydydd nad ydynt yn gweithio yn parhau i wynebu'r risg fwyaf o dlodi, mae cyfran y bobl dlawd sy'n byw mewn aelwydydd sy'n gweithio wedi cynyddu dros y blynnyddoedd diwethaf wrth i lefelau diweithdra gynyddu (**Oedolion oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd**, StatsCymru). Mae'r tueddiadau yn y dyfodol mewn perthynas â thlodi yn ansicr, a byddant yn dibynnu'n arbennig ar bolisi Llywodraeth y DU ar les. Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, mae cyfraddau tlodi plant yng Nghymru wedi bod yn debyg yn fras i gyfraddau'r DU yn gyffredinol (**Plant mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd**, StatsCymru).

## Cyrhaeddiad addysgol

Gan adlewyrchu'r DU gyfan, mae proffil cymwysterau poblogaeth Cymru wedi gwella'n sylweddol dros y blynnyddoedd diwethaf (**Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2019/20**, Llywodraeth Cymru). Fodd bynnag, mae bwlch cyrhaeddiad addysgol ar lefel TGAU o hyd, ac mae myfyrwyr yng Nghymru sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llawer llai tebygol o ennill y graddau gorau na myfyrwyr eraill (**Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU disgyblion ym mlwyddyn 11 fesul PYD**, StatsCymru). Mae nifer y bobl ifanc

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yng Nghymru wedi bod yn lleihau dros y degawd diwethaf, ond mae'r lleihad wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf.

## Safonau byw

Mae safonau byw mewn gwahanol rannau o Gymru wedi dod ychydig yn fwy cyfartal dros amser, er bod rhywfaint o'r cynnydd a wnaed wedi'i wrthdroi yn ystod y blynyddoedd diwethaf ([Adroddiad y Prif Economegydd 2020](#), Llywodraeth Cymru). Ers argyfwng ariannol 2008, mae'r twf mewn incymau aelwydydd, ac yn ei brif ysgogwr sylfaenol, sef cynhyrchiant, yn y DU wedi lleihau ymhell islaw'r duedd hanesyddol ([Labour productivity time series](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae cynhyrchiant, a gaiff ei lywio'n rhannol gan lefelau addysg a sgil, ond hefyd gan ddwysedd poblogaeth a lefelau trefoli, yn is yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU, heblaw Gogledd Iwerddon. Yn Sir y Fflint, Wrecsam, a siroedd y de y mae'r cyfraddau cynhyrchiant uchaf yng Nghymru, ac ym Mhowys y mae'r gyfradd cynhyrchiant isaf ymhlith yr holl is-ranbarthau ym Mhrydain ([What are the regional differences in income and productivity?](#) Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae'r duedd o ran canolrif incymau aelwydydd yng Nghymru wedi dilyn tuedd ehangach y DU, ond dros y blynyddoedd diwethaf, mae canolrif incymau yng Nghymru wedi bod tua 5 y cant yn is na lefelau'r DU ([Adroddiad y Prif Economegydd 2020](#), Llywodraeth Cymru).

## Anghydraddoldebau iechyd

Mae anghydraddoldebau iechyd sylweddol yn effeithio ar fywydau pobl yn ein cymdeithas. Ers y 1970au, mae sawl adroddiad wedi tynnu sylw at hyd a lled yr anghydraddoldebau hyn a'u heffeithiau yn y DU ac yng Nghymru ([Health state life expectancy, all ages, UK](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng disgwyliad oes 'iach' y bobl fwyaf a lleiaf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

difreintiedig. Mae dadansoddiad (yn seiliedig ar ddata 2016-2018) yn dangos mai'r bwlch rhwng disgwyliad oes yn yr ardaloedd â'r mwyaf o amddifadedd ac yn yr ardaloedd â'r lleiaf o amddifadedd oedd 9.0 mlynedd i ddynion a 7.4 mlynedd i fenywod (**Past and projected period and cohort life tables, 2018-based, UK: 1981 to 2068**, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Fodd bynnag, roedd y bwlch rhwng disgwyliad oes y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig yn fwy byth, sef 18.2 mlynedd i ddynion ac 19.1 mlynedd i fenywod. Gall anghydraddoldebau iechyd waethygu o ganlyniad i ffactorau megis problemau iechyd meddwl, digartrefedd, ac anallu i gael gofal iechyd.

## Cyflogaeth

Dros y 30 mlynedd diwethaf, gwelwyd gwelliant hanesyddol yng nghyfraddau cyflogaeth Cymru o gymharu â'r DU gyfan ac, er bod y cyfraddau wedi aros islaw cyfraddau'r DU gyfan, mae'r sefyllfa yng Nghymru wedi bod yn well dros y blynyddoedd diwethaf nag mewn nifer o wledydd a rhanbarthau eraill yn y DU (**Trosolwg o'r farchnad lafur: Hydref 2021**, Llywodraeth Cymru). Mae lefelau diweithdra wedi bod yn gostwng ledled Cymru ers 2013, er nad yw hyn yn digwydd yn gyfartal ledled y wlad – mae diweithdra wedi lleihau'n sylweddol yn y de-ddwyrain, ond nid yw'r sefyllfa yn y canolbarth wedi newid fawr ddim (**Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn**, StatsCymru). Mae cyfraddau creu swyddi yng Nghymru wedi cynyddu dros y degawdau diwethaf, ond mae hyn wedi digwydd yn anghyfartal. Ers 2001, yng Nghaerdydd y gwelwyd y cynnydd cymesur mwyaf yn nifer y swyddi yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn, gyda chynnydd o 45.5 y cant, sy'n gyson â thwf ei phoblogaeth dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn y cyfamser, ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y lleihad cymesur mwyaf yn nifer y swyddi, sef -19.1 y cant.

I gael gwybodaeth fanylach am dueddiadau mewn perthynas ag anghydraddoldebau a chyfleoedd, gweler sleidiau 32 i 49 ym Mhecyn Tystiolaeth Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Iechyd a therfynau'r blaned

## Newid yn yr hinsawdd

Mae tymereddau byd-eang wedi bod yn cynyddu'n raddol dros yr ychydig ddegawdau diwethaf – mae naw o'r 10 mlynedd cynhesaf wedi cael eu cofnodi ers 2010 ([Major update to key global temperature data set](#), Y Swyddfa Dywydd). Mae trychinebau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi cynyddu'n syfrdanol, gan arwain at effeithiau anghymesur ar wledydd llai datblygedig. Disgwylir yn eang y bydd y newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd digwyddiadau tywydd eithafol yn parhau i ddigwydd yn amlach ac yn fwy dwys, gan arwain at fwy o effeithiau dros y blynyddoedd nesaf ([State of the Global Climate](#), Sefydliad Meteorolegol y Byd). Yng Nghymru, mae tebygolrwydd uchel y bydd digwyddiadau tywydd digynsail, gan gynnwys stormydd arfordirol, llifogydd, tywydd poeth a sychder yn cynyddu dros y blynyddoedd sydd i ddod ([Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru](#), Cadw). Rhagwelir y bydd hafau'n gynhesach ac yn sychach, y bydd gaeafau'n fwynach ac yn wlypach, ac y bydd cynnydd o hyd at 24cm yn lefelau'r môr ledled y wlad erbyn 2050. Yng Nghymru, ni fydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo'n gyfartal ledled y wlad – bydd effeithiau anghymesur ar bobl sy'n ddifreintiedig yn economaidd ac yn gymdeithasol ([Climate change, justice and vulnerability](#), Joseph Rowntree Foundation). Mae'n debygol y bydd yr anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli yn dwysáu gan y bydd llai o adnoddau ar gael i bobl sy'n byw mewn ardaloedd incwm isel a lleoliadau mwy agored er mwyn lliniaru newidiadau yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.

## Allryiadau nwyon tŷ gwydr

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang yn cynyddu ar gyfradd o 1.5 y cant bob blwyddyn ([Data supplement to the Global Carbon Budget 2021](#), ICOS). Fodd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

bynag, disgwylir i ddatgarboneiddio cyflymach, datblygiadau mewn technolegau carbon isel ac addunedau datgarboneiddio rhyngwladol arwain at fan gwastad mewn allyriadau byd-eang (**Shaping the trends of our time**, Y Cenhedloedd Unedig). Yng Nghymru, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr domestig wedi lleihau bron traean ers 1990 (**Devolved administration emission inventories**, Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol). Newidiadau yn y sector pŵer sy'n bennaf cyfrifol am y lleihad hwn, yn enwedig drwy fynd ati'n raddol i gael gwared ar orsafoedd pŵer sy'n llosgi glo. Mae'r lleihad mewn allyriadau yng Nghymru wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf (**2021 Progress report to parliament**, Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd). Mae allyriadau o amaethyddiaeth wedi lleihau 11 y cant ers 1990, ond wedi cynyddu 13 y cant dros y degawd diwethaf (**ibid.**). Ceir anghydraddoldebau amlwg rhwng allyriadau'r bobl gyfoethocaf a'r bobl dlotaf. Mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau ar lefel fyd-eang a chenedlaethol. Y 10 y cant cyfoethocaf o boblogaeth y DU sy'n gyfrifol am chwarter cyfanswm allyriadau'r DU, gan gynhyrchu mwy na phedair gwaith yn fwy o allyriadau na'r 50 y cant tlotaf (**Carbon emissions and income inequality**, Llyfrgell Oxfam; **Emissions gap report 2020**, Y Cenhedloedd Unedig).

## Defnydd cynaliadwy

Mae Cymru, fel llawer o wledydd sy'n ddatblygedig yn economaidd, yn defnyddio adnoddau naturiol adnewyddadwy ac anadnewyddadwy ar gyfradd anghynaliadwy. Pe bai pawb ar y Ddaear yn defnyddio adnoddau naturiol ar yr un gyfradd â Chymru, byddai angen 2.5 blaned (**Scientists' warning on affluence**, Nature Communications). Y gordefnydd a'r gorgynhyrchu hyn sy'n gyfrifol am ddi-hysbyddu'r adnoddau naturiol y mae gwledydd sy'n datblygu yn ddibynnol iawn arnynt, sef gwledydd sy'n tueddu i fod yn fwy agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Y defnydd o ynni

Ers 2005, mae cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni yng Nghymru wedi arwain at leihad yn y defnydd o ynni ([Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2019](#), Llywodraeth Cymru). Fel cyfran o gyfanswm y defnydd o ynni yng Nghymru, mae'r defnydd o ynni sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth wedi cynyddu, ac mae'r defnydd o ynni sy'n gysylltiedig â diwydiant wedi lleihau. Mae'r defnydd o ynni sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth ac adeiladu wedi aros yr un fath, fwy neu lai ([Defnydd o Ynni yng Nghymru 2018](#), Llywodraeth Cymru). Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rhagweld bod y galw am drydan yng Nghymru yn debygol o ddyblu erbyn 2050 yn sgil gofynion newydd sy'n deillio o'r newid cymdeithasol i ffynonellau trydan adnewyddadwy ([Independent Assessment of UK Climate Risk](#), Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd).

## Llygredd aer

Llygredd aer yw un o broblemau mwyaf y byd, o ran iechyd a'r amgylchedd, gan gyfrannu at 9 y cant o farwolaethau ledled y byd. Er bod y gyfradd marwolaethau yn sgil llygredd aer wedi gostwng dros y degawdau diwethaf, ceir costau cymdeithasol ac amgylcheddol parhaus, gan gynnwys o ganlyniad i ddiraddio cynefinoedd a dyrffyrdd. Er bod ansawdd aer rhai ardaloedd yng Nghymru gyda'r gorau yn y DU, yn ne Cymru y mae rhai o'r lefelau llygredd aer gwaethaf. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif y gellir priodoli hyd at 1,400 o farwolaethau y flwyddyn i lygredd aer ([Air pollution and health in Wales](#), lechyd Cyhoeddus Cymru). Mae llygredd aer ar ei uchaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er bod lefelau allyriadau nitrogen deuocsid wedi bod yn gostwng yn raddol dros y degawd diwethaf, mae lefelau deunydd gronynnol wedi bod yn cynyddu yn dilyn cyfnod o ostwng i'r gwerthoedd isaf erioed yn 2017 ([Concentrations of nitrogen dioxide](#), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Un o'r ffynonellau mwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer yng Nghymru yw trafndiaeth. Dros y degawd diwethaf, mae'r pellter a gaiff ei yrru gan geir yng Nghymru wedi cynyddu 13 y cant, ond mae'r allyriadau o'r ceir hyn wedi lleihau 9 y cant ([2021 Progress report to parliament](#), Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd). Er gwaethaf y gwelliannau hyn o ran effeithlonrwydd, mae cyfanswm allyriadau trafndiaeth tir wedi aros yr un fath ers lefelau 1990, at ei gilydd. Yn seiliedig ar y trywyddau presennol, mae traffig ceir yng Nghymru yn cynyddu. Bu cynnydd sylweddol mewn teithio mewn fan ac ar drên dros y degawd diwethaf, a lleihad mewn teithio ar fws. Mae'r galw am feicio wedi mwy na dyblu dros y degawd diwethaf, ond mae'n dal i gyfrif am gyfran fach iawn o gyfanswm y teithio a wneir. Hefyd, mae cerbydau trydan wedi dod yn llawer mwy poblogaidd ledled y DU dros y blynyddoedd diwethaf – tuedd sy'n debygol o barhau ac yn debygol o leihau cyfanswm yr allyriadau carbon o geir ([Statistical Dataset - All Vehicles](#), Yr Adran Drafndiaeth).

## Bioamrywiaeth ac ecosystemau

Mae colli bioamrywiaeth yn cyflymu'n fyd-eang ac yng Nghymru ar gyfradd ddigynsail ([Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol](#), Convention on Biological Diversity). Er bod poblogaethau rhai rhywogaethau yng Nghymru wedi gwella (e.e. adar, ystlumod, a rhywogaethau dŵr croyw), mae dirywiad difrifol wedi'i gofnodi ymhlith rhywogaethau eraill (e.e. gloynnod byw, gwyfynod, rhywogaethau infertebrat, a llawer o rywogaethau planhigion - [State of Natural Resources Report \(SoNaRR\): Assessment of the Sustainable Management of Natural Resources](#), Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae 8 y cant o'r rhywogaethau sydd i'w gweld yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu yn y wlad ([Sefyllfa Byd Natur 2019: Crynodeb i Gymru. Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol](#), Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol). Mae colli bioamrywiaeth yn cael effaith uniongyrchol ar ecosystemau Cymru, sydd â chadernid isel ar hyn o bryd ([State of Natural Resources Report \(SoNaRR\): Assessment of the Sustainable Management of Natural Resources](#), Cyfoeth

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Naturiol Cymru).

Er bod ansawdd dŵr yng Nghymru, boed mewn moroedd, afonydd, nentydd neu ar y ddaear, yn gwella ar y cyfan, mae llygredd sy'n seiliedig ar nitrogen sy'n deillio o amaethyddiaeth yn gwneud niwed difrifol i fioamrywiaeth ac ecosystemau, gan arwain at ewtroffeiddio ac asideiddio dyfrffyrdd a phriddoedd. Rhagwelir y bydd allyriadau nitrogen amaethyddol yn lleihau ychydig erbyn 2030 ([Nitrogen Futures](#), Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur).

## Cynnyrch cnydau

Rhagamcenir y bydd effaith y newid yn yr hinsawdd yn lleihau cynnyrch cnydau byd-eang o 2030 ymlaen, ac mae bron hanner yr amcanestyniadau y tu hwnt i 2050 yn awgrymu y bydd cynnyrch cnydau yn lleihau fwy na 10 y cant ([A meta-analysis of crop yield under climate change and adaption](#), Nature Climate Change). Mae'n debygol y bydd yr effaith hon yn cael ei theimlo fwyaf mewn gwledydd sy'n datblygu a gwledydd sy'n wynebu'r risg fwyaf yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ([World development report 2010: Development and climate change](#), Banc y Byd). Ar hyn o bryd mae Cymru, fel y DU gyfan, yn ddibynnol ar fewnforion bwyd o wledydd eraill ([UK's fruit and vegetable supply increasingly dependent on imports from climate vulnerable producing countries](#), Nat Food), ac mae llawer o'r gwledydd hynny'n wynebu'r perygl o leihad mewn cynnyrch cnydau.

## Y galw am fwyd

Er mwyn ateb y galw am fwyd yn 2050, amcangyfrifir y bydd angen i gynhyrchiant amaethyddol byd-eang gynyddu 50 y cant o lefelau 2012 ([World agriculture towards 2030/2050: The 2012 revision](#), Y Sefydliad Bwyd ac Amaeth). Er y gall y cynnydd a ragwelir mewn cynhyrchiant bwyd leihau lefelau newyn a diffyg maethiad yn fyd-eang, disgwylir twf mewn allyriadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

amaethyddol, gwastraff bwyd a gordewdra hefyd. Y system fwyd fyd-eang sy'n gyfrifol am rhwng 21 a 37 y cant o allyriadau nwyon tŷ gwydr (**Climate change and land - Pennod 5: diogelwch bwyd**, Intergovernmental Panel on Climate Change). Yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynhyrchu, prosesu, storio, cludo a pheycynnu bwyd, disgwylir i'r allyriadau hyn gynyddu i rhwng 30 a 40 y cant erbyn 2050, ochr yn ochr â'r diraddio ecolegol ychwanegol posibl sy'n gysylltiedig â nhw ar hyn o bryd.

## Sicrwydd bwyd

Mae'n debygol y bydd bygythiadau cynyddol i sicrwydd bwyd, a ysgogir yn rhannol gan effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac arferion anghynaliadwy, yn arwain at gynnydd ym mhrisiau rhai bwydydd, megis grawnfwydydd (**ibid.**). Hefyd, gwelwyd bod rhai cynydau a gaiff eu tyfu mewn amgylcheddau â lefelau uwch o garbon deuocsid yn cynhyrchu bwyd llai maethlon, sy'n peri risg y bydd diffygion maethol yn cynyddu dros y degawdau sydd i ddod.

I gael gwybodaeth fanylach am dueddiadau mewn perthynas ag iechyd a therfynau'r blaned, gweler sleidiau 50 i 73 ym Mhecyn Tystiolaeth Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021.

## Technoleg

### Y defnydd o'r rhyngwrwd a mynediad ati

Mae'r defnydd o'r rhyngwrwd yn cynyddu ledled Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae cyfran yr oedolion yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd wedi lleihau i tua 10 y cant (**Internet Users**, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Fodd bynnag, mae cyfran y bobl 75 oed a throsodd yn y DU nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd yn cynyddu. Mae'r grŵp oedran hwn hefyd yn gwneud

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



llawer llai o ddefnydd o'r rhyngrwyd 'ar grwydr' nag oedolion eraill – tuedd sy'n lleihau wrth i bobl fynd yn hŷn ([Exploring the UK's Digital Divide](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Er gwaethaf y cynnydd yn y defnydd o'r rhyngrwyd, erys 'gagendor digidol' rhwng y rhai sydd â'r sgiliau a'r mynediad at wybodaeth a thechnolegau cyfathrebu, a'r rhai sydd hebddynt ([Arolwg cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau](#), Llywodraeth Cymru). Gall y gagendor parhaus hwn waethygu anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ([Providing basic digital skills to 100% of UK population could contribute over £14 billion annually to UK economy by 2025](#), Y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes). Pobl 75 oed a throsodd yw'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol fwyaf ym mhoblogaeth Cymru.

## Deallusrwydd artiffisial

Er bod y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn dod yn rhan gynyddol o fywyd pob dydd yng Nghymru, mae'r trywydd o ran presenoldeb deallusrwydd artiffisial a'r defnydd ohono yng Nghymru yn y dyfodol yn ansicr ac yn ddibynnol iawn ar ba mor barod neu fodlon yw cymdeithas i fabwysiadau rhagor o dechnoleg deallusrwydd artiffisial. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae pryderon moesegol wedi tyfu ynglŷn â defnyddio deallusrwydd artiffisial a diben gwneud hynny, a gellir disgwyl y bydd ystyriaethau moesegol yn rhan fwy canolog o'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol ([Cyber Security Breaches Survey](#), Ipsos Mori).

## Digidoleiddio

Yn fyd-eang, mae busnesau yn ymaddasu'n gynyddol i ddigidoleiddio a mabwysiadu technolegau newydd. Y duedd gyffredinol yw digidoleiddio prosesau gwaith yn gyflymach. Yn y dyfodol agos, rhagwelir y bydd cyfradd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

mabwysiadu technolegau amgryptio a seiberddiogelwch yn cynyddu 29 y cant, ac y bydd cyfradd mabwysiadu cyfrifiaduro cwmwl yn cynyddu 17 y cant (**The future of jobs report 2020**, Fforwm Economaidd y Byd). Mae tystiolaeth yn dangos bod tuedd yn y DU tuag at gynnig mwy o gyfleoedd i weithio o bell (**Doing what it takes: Protecting firms and families from the impact of coronavirus**, Resolution Foundation). Fodd bynnag, mae'r duedd hon yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ddiwydiant a swydd yr unigolyn – mae'r rhai sy'n gweithio mewn rolau crefft medrus ac sy'n ymdrin â chwsmeriaid yn llai tebygol o weithio o bell, ond mae rolau ym meysydd gweinyddiaeth gyhoeddus a rheoli yn hynod hyblyg o ran gweithio o bell. Bydd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar dueddiadau gweithio, a chaiff y tueddiadau hyn eu dadansoddi fel rhan o'r diweddariad ar yr adroddiad yn 2023. Ochr yn ochr â'r twf hwn mewn digidoleiddio, mae bygythiadau seiberddiogelwch yn achosi perygl cynyddol i bob cymdeithas. Mae 82 y cant o fusnesau yn y DU yn bancio ar-lein ac mae 58 y cant yn defnyddio dulliau electronig i gadw gwybodaeth bersonol am gwsmeriaid. Mae 40 y cant o fusnesau yn y DU wedi profi achosion o dorri diogelwch data neu ymosodiadau yn ystod y 12 mis diwethaf (**Cyber Security Breaches Survey**, Ipsos Mori). Mae'n debygol y bydd seiberddiogelwch yn dod yn fwyfwy amlwg os bydd y tueddiadau presennol yn parhau.

## Awtomeiddio swyddi

Mae'r duedd tuag at awtomeiddio mwy o waith yn debygol o barhau, wrth inni weld mwy o dechnoleg yn cael ei defnyddio yn lle llafur yn ogystal â thechnoleg yn cael ei hymgorffori ymhellach mewn gweithleoedd ac arferion gwaith presennol er mwyn creu cyfleoedd, cynhyrchion a gwasanaethau newydd a gwell (**Cymru 4.0 Cyflawni trawsnewidiad economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith**, Llywodraeth Cymru). Amcangyfrifir bod gan tua 6.5 y cant o swyddi yng Nghymru lawer o botensial i gael eu hawtomeiddio, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 6.2 y cant (**Llunio'r dyfodol: System sgiliau 21ain ganrif ar gyfer Cymru**, IPPR Scotland). Mae tystiolaeth yn awgrymu yr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ystyrir mai rolau 'llai medrus' sy'n cynnwys tasgau arferol ac ailadroddus sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu hawtomeiddio, a bod rolau 'medrus' sy'n cynnwys tasgau amrywiol a chymhleth yn llai tebygol o gael eu hawtomeiddio (**Which occupations are at the highest risk of being automated?** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae pobl iau a menywod yn fwy tebygol o wynebu risg y caiff eu swyddi eu hawtomeiddio yn y dyfodol (**The probability of automation in England: 2011 to 2017**, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

## Sgiliau digidol

Mae bron un o bob pump o bobl yng Nghymru yn brin o sgiliau digidol sylfaenol, sef y gyfran uchaf ymhlith holl ranbarthau'r DU. Hefyd, mae nifer y bobl sy'n dweud bod ganddynt sgiliau digidol da yn llai yng Nghymru nag yn unrhyw ranbarth arall yn y DU (**Essential digital skills report 2021**, Banc Lloyds). Mae cyflogwyr yn chwilio fwyfwy am sgiliau digidol ar gyfer swyddi ar bob lefel sgiliau; mae 77 y cant o'r swyddi 'llai medrus' yn y DU mewn galwedigaethau lle mae angen sgiliau digidol (**No longer optional: Employer demand for digital skills**, Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon). Mae'r galw am sgiliau sy'n gysylltiedig â chymorth ym maes cyfrifiaduron a rhwydweithio 5 y cant yn uwch yng Nghymru na chyfartaledd y DU (**ibid.**). Mae tystiolaeth yn awgrymu mai sgiliau sy'n ymwneud â thechnoleg fydd yn cyfrif am y sgiliau mwyaf gwerthfawr erbyn 2025 (**The future of jobs report 2020**, Fforwm Economaidd y Byd). Fodd bynnag, bydd meysydd na ellir eu hefelychu'n hawdd drwy ddefnyddio technoleg, megis deallusrwydd emosiynol, darbwyllo a chyd-drafod, yn cadw eu gwerth a bydd y galw amdanynt yn parhau ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

I gael gwybodaeth fanylach am dueddiadau mewn perthynas â datblygiad technoleg, gweler sleidiau 74 i 86 ym Mhecyn Tystiolaeth Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cyllid cyhoeddus

Mae'r pandemig wedi arwain at effeithiau economaidd mawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae'r goblygiadau tymor hwy yn ansicr ar y cyfan. Felly, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar dueddiadau yn y tymor byr i'r tymor canolig yn bennaf.

## Trosolwg

Rhagwelir y bydd CDG yn tyfu yn dilyn gostyngiad yn ystod y pandemig, ond mae amcanestyniadau ar gyfer adferiad yn amrywio ([Monetary Policy Report: November 2021](#), Y Pwyllgor Polisi Ariannol). Gostyngodd benthycu net sector cyhoeddus y DU fel cyfran o CDG drwy gydol y degawd diwethaf a disgwylir iddo barhau i ostwng yn y dyfodol ([Public finances databank: October 2021](#), Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol). Rhagwelir y bydd refeniw treth datganoledig yn tyfu dros y pum mlynedd nesaf ([Overview of the March 2021 Economic and fiscal outlook](#), [March 2021 devolved tax and spending forecasts: charts and tables](#), Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol). Gall gostyngiad yn y boblogaeth o oedran gweithio effeithio ar lefelau refeniw treth yn y dyfodol ([Principal projection: Wales population in age groups](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ([Principal projection: UK population in age groups](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Bydd y rhagolygon tymor hwy ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yn Adroddiad y Prif Economegydd sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb ddrafft.

## Cyflogaeth a chymwysterau

Yn ystod y cyfnod ers canol y 1990au, mae'r bwlch hanesyddol mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a gweddill y DU wedi lleihau ac, yn ddiweddar, mae'r farchnad lafur yng Nghymru wedi perfformio cystal neu'n well na nifer o wledydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

a rhanbarthau eraill yn y DU ([Adroddiad y Prif Economegydd 2020](#), Llywodraeth Cymru). Ar yr un pryd, nid oes arwydd bod “ansawdd” swyddi yng Nghymru ar gyfartaledd wedi dirywio, ond mae'n amlwg bod lle i wella yn hyn o beth. Mae lefelau cymwysterau yng Nghymru wedi gwella, ond nid cymaint ag mewn rhannau eraill o'r DU ([Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru 2019/20](#), Llywodraeth Cymru).

## Cynhyrchiant

Yn yr hirdymor, bydd gwelliannau mewn cyflogau a safonau byw yn dibynnu ar gynnydd mewn cynhyrchiant. Yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU, mae twf mewn cynhyrchiant yng Nghymru wedi bod yn wan ers tua adeg yr argyfwng ariannol ([Labour productivity time series](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae'r DU yn ei chyfanwydd yn cymharu'n wael â gwledydd eraill o ran lefel ei chynhyrchiant llafur ac, yn ei thro, mae Cymru'n perfformio'n wannach na'r rhan fwyaf o rannau eraill y DU. Tyfodd y bwlc cynhyrchiant rhwng Cymru a'r DU gyfan dros y blynyddoedd cyn yr argyfwng ariannol, ond mae'r sefyllfa wedi aros yr un fath ers hynny, fwy neu lai. Fodd bynnag, mae cyflogau cyfartalog (canolrifol) yng Nghymru wedi newid yn unol â chyflogau cyfartalog yn y DU yn fras ers tua adeg datganoli ([Adroddiad y Prif Economegydd 2020](#), Llywodraeth Cymru).

## Safonau byw

Mae safonau byw yng Nghymru, fel yr adlewyrchir mewn incymau canolrifol, tua 5 y cant islaw safonau byw yn y DU yn gyffredinol ([ibid](#)). Mae'r bwlc hwn yn llawer llai na'r bwlc o ran CDG y pen, sy'n adlewyrchu trosglwyddiadau mawr o dan system ariannol y DU yn bennaf. Mae gwahaniaethau rhwng safonau byw mewn rhannau gwahanol o Gymru wedi lleihau dros y cyfnod ers diwedd y 1990au, ond mae'n bosibl bod y duedd hon wedi gwrthdroi'n rhannol ers tua 2013.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Incymau ac anghydraddoldeb incwm

Mae incymau canolrifol yng Nghymru wedi newid yn unol ag incymau canolrifol yn y DU gyfan i raddau helaeth dros y tymor canolig (**ibid**). Yn yr un modd â'r DU gyfan, mae'r gwelliant mewn safonau byw yng Nghymru wedi bod yn araf dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny'n bennaf mewn ymateb i'r twf sylfaenol gwan mewn cynhyrchiant (**ibid**).

Cynyddodd anghydraddoldeb incwm ledled y DU yn sydyn yn ystod y 1980au, ond mae wedi aros yr un fath ers hynny, fwy neu lai (gyda rhywfaint o godi a gostwng). Fodd bynnag, bu cynnydd bach mewn anghydraddoldeb ledled y DU yn ystod y cyfnod yn union cyn y pandemig, a cheir rhai arwyddion mai un o effeithiau hirdymor y pandemig fydd rhagor o gynnydd mewn anghydraddoldeb, am fod y tarfu ar addysg wedi arwain at effeithiau gwahaniaethol (**ibid**). Mae hyn wedi effeithio ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd incwm isel yn arbennig, a gall hyn arwain at ganlyniadau hirdymor.

Er bod anghydraddoldeb incwm wedi aros yr un fath, fwy neu lai, dros y tymor canolig i'r tymor hwy, mae tlodi cymharol wedi lleihau os rhywbeth, ond digwyddodd y lleihad hwn yn y cyfnod cyn 2010 (**ibid**). Mae'r rhagolygon o ran tlodi cymharol yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniad polisi Llywodraeth y DU ar drethi a budd-daliadau.

## Effeithiau cynnal pandemig COVID-19

Mae'r duedd tuag at weithio o bell a gweithio gartref wedi cyflymu yn sgil y pandemig ac mae hyn yn debygol o arwain at oblygiadau hirdymor i batrymau teithio a lleoliad a natur mathau penodol o weithgarwch a chyflogaeth (**ibid**).

Er gwaethaf cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth y DU o ganlyniad i'r pandemig, mae'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn y tymor

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hwy yn heriol, gyda risgiau penodol yn deillio o amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys newid demograffig.

I gael gwybodaeth fanylach am gyllid cyhoeddus, gweler sleidiau 87 i 92 ym Mhecyn Tystiolaeth Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021.

## Galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus

### Cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio

Disgwylir y bydd y ffaith bod poblogaeth Cymru'n heneiddio yn cynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn y tymor canolig i'r hirdymor. Wrth i boblogaethau heneiddio, mae'n debygol y bydd gan gyfran fwy o bobl gyflyrau iechyd cronig a chydafiachedd, y mae'r naill a'r llall yn cynyddu'r pwysau o ran costau ac adnoddau sydd ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl yr amcanestyniadau presennol, er mwyn ateb y galw bydd gwariant ar iechyd yn cynyddu o 7.3 y cant o CDG yn 2014-15 i 8.3 y cant yn 2064/65 ac o 1.1 i 2.2 y cant o CDG ar ofal hirdymor yn ystod yr un cyfnod ([Future of an Aging Population](#), Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth).

Mae'r amcanestyniadau'n dangos y bydd y gymhareb ar gyfer dibyniaeth oherwydd henaint, sy'n rhoi bras amcan o nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi gan y boblogaeth o oedran gweithio, yn gostwng yn sylweddol dros amser tan 2037 yng Nghymru ac yn y DU gyfan ([Living longer and old-age dependency: what does the future hold?](#) Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Mae hyn yn golygu y bydd nifer y bobl y mae'n fwyaf tebygol y bydd angen iddynt gael gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus yn cynyddu mewn perthynas â nifer y bobl economaidd weithgar sy'n gallu darparu refeniw o drethi.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus

Ar ôl lleihau am ddegawd, mae nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cynyddu i'w lefel uchaf erioed, gan gynyddu 13.3 y cant dros y blynnyddoedd diwethaf i 30.6 y cant o gyfanswm gweithlu Cymru ([Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a statws](#), StatsCymru). Nid yw'n glir a fydd y duedd yn parhau gan ei bod yn bosibl mai ymateb y sector cyhoeddus i bandemig COVID-19 sy'n gyfrifol am y cynnydd diweddar yn y gweithlu. Hefyd, dros y degawd diwethaf, mae cynhyrchiant y sector cyhoeddus wedi bod yn cynyddu ([Public service productivity: total, UK, 2018](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

## Y defnydd o wasanaethau cyhoeddus ar-lein

Mae'r ffordd y mae pobl yn cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus yn newid. Hefyd, mae'r defnydd cynyddol o'r rhyngwrwd wedi arwain at dwf yn y defnydd o wasanaethau cyhoeddus ar-lein, ynghyd â chynnydd cyffredinol yn nifer y bobl sy'n cael gafael ar wybodaeth, yn lawrlwytho, ac yn cyflwyno ffurflenni swyddogol ar-lein ([Sgiliau rhyngwrwd a gwasanaethau sector cyhoeddus ar-lein \(Arolwg Cenedlaethol Cymru\)](#), Llywodraeth Cymru). Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod 77 y cant o ymatebwyr yng Nghymru wedi defnyddio gwefan o leiaf un gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y 12 mis diwethaf, mai pobl rhwng 35 a 54 oed sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio gwefannau gwasanaethau cyhoeddus, ac mai pobl 65 oed a throsodd sydd leiaf tebygol ([Arolwg cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau](#), Llywodraeth Cymru).

I gael gwybodaeth fanylach am dueddiadau mewn perthynas â galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus, gweler sleidiau 93 i 101 ym Mhecyn Tystiolaeth Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



# Cyfeiriadau ac adnoddau

## Pobl a phoblogaeth: adroddiadau

- Sefydliad Bevan. (2018). **Demographic Trends in Wales**. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan.
- CPEC. (2019). **Projections of older people with dementia and costs of dementia care in the United Kingdom, 2019-2040**. Llundain: Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.
- Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth. (2016). **Future of an Aging Population**. Llundain: Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth.
- SYG. (2019a). **Past and projected period and cohort life tables, 2018-based, UK: 1981 to 2068**. Ar-lein: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2019c). **National population projections, migration assumptions: 2018-based**. Ar-lein: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2020). **Migration statistics quarterly report: Awst 2020**. Ar-lein: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- SYG. (2021c). **Health state life expectancies by national deprivation deciles, Wales: 2017 to 2019**. Ar-lein: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2019a). **World Population Prospects 2019**. Efrog Newydd: Y Cenhedloedd Unedig.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2020). **World Population Aging 2019**. Efrog Newydd: Y Cenhedloedd Unedig.
- Llywodraeth Cymru. (2017a). **Adroddiad Technegol: Amcanestyniad a thafllwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2017b). **Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg**. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2020b). **Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018, Cymru (diwygiedig)**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Llywodraeth Cymru. (2020d) **Amcanestyniadau is-genedlaethol o aelwydydd (awdurdodau lleol): 2018 i 2043**. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2020e). **Amcangyfrifon o'r angen ychwanegol am dai yng Nghymru (ar sail 2019)**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2021f). **Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Gorffennaf 2020 i Fehefin 2021**. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru (2021g). **Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (canfyddiadau cychwynnol): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020**. Llywodraeth Cymru.

## Pobl a phoblogaeth: Setiau data

- SYG. (2019b). **National population projections table of contents**. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2021a). **Life expectancy estimates, all ages, UK**. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2021b). **Health state life expectancy, all ages, UK**. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2019b). **World Population Prospects 2019**. Yr Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol.
- Llywodraeth Cymru. (2020a). **Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn ac oedran**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2020c). **Iechyd cyffredinol ac afiechyd yn ôl cwintel amddifadedd MALIC**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2020f). **Amcangyfrifon blynyddol cyfartalog o'r angen am dai (sail-2019) fesul rhanbarth, amrywiolyn a blwyddyn (cyfnod 5 mlynedd)**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021a). **Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021b). **Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd a blwyddyn**. StatsCymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Llywodraeth Cymru. (2021c). [Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl amrywiolyn a blwyddyn](#). StatsCymru.

## Anghydraddoldebau: adroddiadau

- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2021). [Income inequality in the UK](#). Senedd y DU.
- SYG. (2021b). [What are the regional differences in income and productivity?](#) Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2020a). [Shaping the trends of our time](#). Y Cenhedloedd Unedig.
- Llywodraeth Cymru. (2020a). [Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2019/20](#) Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2020b). [Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU disgyblion ym mlwyddyn 11 fesul PYD](#). StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2020c). [Adroddiad y Prif Economegydd 2020](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021g). [Trosolwg o'r farchnad lafur: Hydref 2021](#). Llywodraeth Cymru.

## Anghydraddoldebau: setiau data

- SYG. (2020a). [Regional gross disposable household income: local authorities by ITL1 region](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2021a). [Labour productivity time series](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol:
- SYG. (2021c). [LFS: Employment rate: Wales: Aged 16-64: All: %: SA](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Llywodraeth y DU. (2021). [Explore education statistics](#). Gov.UK.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2020c). [Multidimensional poverty index](#). Y Cenhedloedd Unedig.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2021). [World Income Inequality Database](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Prifysgol y Cenhedloedd Unedig.

- Llywodraeth Cymru. (2020b). **Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU disgyblion ym mlwyddyn 11 fesul PYD**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021a). **Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer y DU, gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr rhwng 1994-95 i 1996-97 a 2017-18 i 2019-20 (cyfartaleddau 3 blynedd o blynnyddoedd ariannol)** StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021b). **Pobl mewn tlodi incwm cymharol yn ôl a oes anabledd yn y teulu**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021c). **Pobl mewn tlodi incwm cymharol yn ôl grŵp ethnig y penteulu**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021d). **Oedolion oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021e). **Plant mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021f). **Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021h). **Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021i). **Lefelau uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl gwlad yn y DU, rhanbarth a chymhwyster**. StatsCymru.
- Llywodraeth Cymru. (2021j). **Lefelau uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl gwlad yn y DU, rhanbarth a chymhwyster**. StatsCymru.

## lechyd a therfynau'r blaned: adroddiadau

- Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer. (2019). **Non-Exhaust Emissions from Road Traffic**. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Cadw. (2020a). **Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru**.
- CGIAR. (2020). **Big facts on climate change, agriculture and food security**. Big Facts.
- Challinor, A. J., Watson, J., Lobell, D. B., Howden, S. M., Smith, D. R., a Chhetri, N. (2014). **A meta-analysis of crop yeild under climate change and adaption**. Nature Climate Change.
- Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. (2021a). **Independent Assessment of UK Climate Risk**. Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.
- Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. (2021b). **2021 Progress report to parliament**. Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.
- Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. (2020). **Global Biodiversity Outlook 5**. Montreal.
- DEFRA. (2021a). **Concentrations of nitrogen dioxide**. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
- Y Sefydliad Bwyd ac Amaeth. (2012). **World agriculture towards 2030/2050: The 2012 revision**.
- Hanlon, H. M., Bernie, D., Carigi, G., a Lowe, J. A. (2021). **Future changes to high impact weather in the UK**. Climate Change, 166(50).
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. (2020). **Nitrogen Futures**. Peterborough.
- Johnson, C. N. (2021). **Past and future decline and extinction of species**. Y Gymdeithas Frenhinol.
- Lindley, S.; O'Neill, J.; Kandeh, J.; Laweson, N.; Christian, R.; O'Neill, M. (2011). **Climate change, justice and vulnerability**. Sefydliad Joseph Rowntree.
- Y Swyddfa Dywydd. (2020a). **Major update to key global temperature data set**. Y Swyddfa Dywydd.
- Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (2019). **Sefyllfa Byd Natur 2019: Crynodeb i Gymru**. Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.
- Cyfoeth Naturiol Cymru. (2016). **State of Natural Resources Report (SoNaRR): Assessment of the Sustainable Management of Natural Resources**. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Cyfoeth Naturiol Cymru. (2020). **SoNaRR 2020: Pontydd i'r Dyfodol**. Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Oxfam. (2015a). **Carbon emissions and income inequality**. Llyfrgell Oxfam.
- Scheelbeck, P. F., Moss, C., Kastner, T., Alae-Carw, C., Jarmul, S., Green, R., . . . Dangour, A. D. (2020). **UK's fruit and vegetable supply increasingly dependent on imports from climate vulnerable producing countries**. Nat Food, 705-712.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2018a). **Inclusive wealth report 2018**. Nairobi: Y Cenhedloedd Unedig.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2020a). **Shaping the trends of our time**. Y Cenhedloedd Unedig.
- Y Cenhedloedd Unedig. (2020b). **Emissions gap report 2020**. Nairobi: Y Cenhedloedd Unedig.
- Llywodraeth Cymru. (2020a). **Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2019**. Regen.
- Llywodraeth Cymru. (2020b). **Defnydd o Ynni yng Nghymru 2018**. Regen.
- Wiedmann, T., Lenzen, M., Keyßer, L.T., a Steinberger, J. K. (2020). Scientists' warning on affluence. Nature Communications, 1-10.
- Sefydliad Meteorolegol y Byd. (2021a). **State of the Global Climate**. Geneva: Sefydliad Meteorolegol y Byd.
- Banc y Byd. (2010). **World development report 2010: Development and climate change**. Washington DC: Banc y Byd.
- WWF. (2020). **Living planet report 2020**. Gland.

## lechyd a therfynau'r blaned: setiau data

- DEFRA. (2021b). UKEAP: **National ammonia monitoring network**. Adnodd Gwybodaeth am Ansawdd Aer y DU.
- Yr Adran Drafnidiaeth. (2021a). **Statistical Dataset - All Vehicles**. Gov.UK.
- Yr Adran Drafnidiaeth. (2021b). **Table Catalogue**. Yr Adran Drafnidiaeth.
- Y Gyllideb Garbon Fyd-eang. (2021). **Data supplement to the Global**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Carbon Budget 2021.** ICOS.

- Y Swyddfa Dywydd. (2021a). **Download and view UK Climate Projections data.** Y Swyddfa Dywydd.
- Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol. (2021a). **Devolved administration emission inventories.** Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol.
- Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol. (2021b). **Devolved administration emissions by source.** Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol:
- Our World in Data. (2020). **Agricultural Production.** Our World in Data.

## Technoleg: adroddiadau

- Burning Glass Technologies. (2019). **No longer optional: Employer demand for digital skills.** Llundain: Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
- Y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes. (2015). **Providing basic digital skills to 100% of UK population could contribute over \$14 billion annually to UK economy by 2025.** Y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes.
- Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. (2021). **Cyber Security Breaches Survey.** Llundain: Ipsos Mori.
- IBM. (2020). Artificial Intelligence (AI). IBM Cloud Education. <https://www.ibm.com/cloud/learn/what-is-artificial-intelligence>
- IPPR Scotland. (2020). **Llunio'r dyfodol: System sgiliau 21ain ganrif ar gyfer Cymru.** Caeredin.
- Banc Lloyds. (2021). **Essential digital skills report 2021.**
- McKinsey. (2019). **Artificial intelligence in the United Kingdom: Prospects and challenges.** Sefydliad Byd-eang McKinsey.
- SYG. (2019a). **Exploring the UK's Digital Divide.** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- SYG. (2019b). **Which occupations are at the highest risk of being automated?** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2019c). **The probability of automation in England: 2011 to 2017.** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Resolution Foundation. (2020). **Doing what it takes: Protecting firms and families from the impact of coronavirus.** Llundain.
- Llywodraeth Cymru. (2019a). **Cymru 4.0 Cyflawni trawsnewidiad economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith.**
- Fforwm Economaidd y Byd. (2020). **The future of jobs report 2020.** Geneva.

## Technoleg: setiau data

- SYG. (2021a). **Internet Users.** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Llywodraeth Cymru. (2021a). **Arolwg cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau.** Llywodraeth Cymru.

## Cyllid cyhoeddus: adroddiadau

- Banc Lloegr. (2021). **Monetary Policy Report: November 2021.** Y Pwyllgor Polisi Ariannol.
- Trysorlys EM. (2021). **Budget 2021: Protecting the jobs and livelihoods of the British people.**
- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. (2021a). **Economic and fiscal outlook: March 2021.** Office for Budget Responsibility.
- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. (2021c). **Overview of the March 2021 Economic and fiscal outlook.** Office for Budget Responsibility.
- The Health Foundation. (2016). **The path to sustainability.**
- Llywodraeth Cymru. (2020c). **Adroddiad y Prif Economegydd 2020.** Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Welsh Government. (2021). **Cynnig y Gyllideb Flynyddol 2021-22.**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



## Cyllid cyhoeddus: setiau data

- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol. (2021b). [Public finances databank - October 2021](#). Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol.
- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol. (2021d). [March 2021 devolved tax and spending forecasts - charts and tables](#) Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol.
- SYG. (2019a). [Principal projection - Wales population in age groups](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2019b). [Principal projection - UK population in age groups](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2021a). [Labour productivity time series](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus: adroddiadau

- Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth. (2016). [Future of an Aging Population](#). Llundain: Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth.
- Ymddiriedolaeth Nuffield. (2021). [The remote care revolution during Covid-19](#). Quality Watch.
- SYG. (2019b). [Living longer and old-age dependency - what does the future hold?](#) Llundain: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2021a). [Public service productivity: total, UK, 2018](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Llywodraeth Cymru (2021). [Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a statws](#): StatsCymru
- Llywodraeth Cymru. (2021b). [Sgiliau rhyngrwyd a gwasanaethau sector cyhoeddus ar-lein \(Arolwg Cenedlaethol Cymru\): Ebrill 2019 i Fawrth 2020](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus: setiau data

- Y GIG. (2021). [Appointments in General Practice - September 2021](#). NHS Digital.
- SYG. (2019a). [Expectation of life, principal projection, Wales](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2020). [Internet access - households and individuals](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- SYG. (2021b). [Public service productivity, quarterly](#). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Llywodraeth Cymru. (2021c). [Arolwg cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau](#). Llywodraeth Cymru.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).